

Seminarau Rhanbarthol, Hydref 2015

Ymgysylltu'n llawn â phreswylwyr i wella
ansawdd



Mewn partneriaeth â



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ymgysylltu'n llawn â phreswylwyr i wella ansawdd

Yn yr adroddiad 'Lle i'w Alw'n Gartref?', galwodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am weithredu mewn amrywiol feysydd darparu cartrefi gofal, i sicrhau y gallai preswylwyr fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl ar eu cyfer.

I'r diben hwn, trefnwyd cyfres o seminarau mewn partneriaeth gyda sefydliadau cenedlaethol eraill a fydd yn rhoi sylw i'r meysydd a gynhwyswyd yng Ngofynion Gweithredu'r Comisiynydd. Cadwch lygad allan am wybodaeth am seminarau a fydd ar gael i chi yn y dyfodol.

Mae My Home Life Cymru yn falch iawn o fod yn gweithio ochr yn ochr â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i gyflwyno'r seminar, 'Ymgysylltu'n llawn â phreswylwyr i wella ansawdd'.

- Beth ydym yn ceisio'i gyflawni gyda'n gwasanaeth i breswylwyr a'u teuluoedd
- Sut y gallwn ymgysylltu orau â phreswylwyr a'u teuluoedd?
- Sut ydym yn gwybod a ydym yn gwneud pethau'n iawn?
- Beth yw cyfrinach gofal tosturiol ac urddasol?



Pwrpas a Chanlyniadau

Bydd y seminar yn rhoi sylw i arfer da o gartrefi gofal ledled Cymru, sy'n llwyddo i ymgysylltu â phreswylwyr a'u teuluoedd. A thrwy hynny'n gwella ansawdd bywyd y rhai y maent yn eu cefnogi.

Bydd myfyrio a dysgu gan gymheiriaid yn cael eu defnyddio i edrych ar beth sy'n llwyddo pan ddaw hi i weithio ar y cyd gyda'r rhai yr ydych yn eu cefnogi. Byddwn yn clywed gan breswylwyr, perthnasau, rheolwyr cartrefi gofal a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

- Beth allwn ni ei ddysgu gan eraill o ran ymgysylltu â phreswylwyr a pherthnasau, a beth allan nhw ei ddysgu gennym ni?
- Beth yw gwir ddymuniad preswylwyr a'u teuluoedd?
- Sut beth yw ansawdd bywyd da?
- Sut allwn ni sicrhau bod preswylwyr yn mwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl?

Gydol y diwrnod, cewch gyfle i ganfod o leiaf un maes datblygu y gallwch ganolbwyntio arno wedyn pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith.

Seminarau Rhanbarthol My Home Life Cymru 2015

Ymgysylltu'n llawn â phreswylwyr i wella

- 9:30** **Cofrestru a lluniaeth ysgafn**
- 10:00** **Croeso a chyflwyniad i'r seminar**
John Moore, Rheolwr My Home Life Cymru, Age Cymru
- 10:15** **Ymgysylltu â phreswylwyr, gwranddo arnynt ac ymateb iddynt**
Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- 10:40** **Troi'n bersonol - rheolau ymgysylltu**
John Moore, Rheolwr My Home Life Cymru, Age Cymru
Cyflwyniad a thrafodaeth:
• Beth ydym yn ceisio'i gyflawni?
- 11:40** **Egwyl a lluniaeth**
- 11:55** **O'r tu mewn - barn preswylwyr a pherthnasau**
Clywed gan breswylwyr cartrefi gofal a'u perthnasau
- 12:25** **Beth allwch chi ei wneud yn wahanol?**
Trafodaeth grŵp ac ystyried sut orau i ymgysylltu â phreswylwyr a'u teuluoedd
- 12:55** **Cinio**
- 1:35** **Herio'r Sialensiau**
Trafodaeth gyda rheolwyr cartrefi gofal ynghylch goresgyn y sialensiau a wynebwn o ran ymgysylltu ag eraill
- 2:35** **Egwyl a lluniaeth**
- 2:50** **Edrychwch pwy ydw i; Cynhwyswch fi; Cysylltwch â mi**
John Moore, Rheolwr My Home Life Cymru, Age Cymru
Cyflwyniad a thrafodaeth:
• Sut ydym yn gwybod a ydym yn gwneud pethau'n iawn?
• Beth yw cyfrinach gofal tosturiol ac urddasol?
- 3:35** **Symud ymlaen**
Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- 3:55** **Cau**

I archebu lle AM DDIM: mhlc@agecymru.org.uk neu 029 2043 1555
Dywedwch pa ddigwyddiad yr hoffech ei fynychu

Hyd 2 - Rhyl Hyd 9 - Casnewydd Hyd 29 - Llanelli